**I gyfarwyddwyr EOS – Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf**

Yr ydym wedi perfformio'r gweithdrefnau a gytunwyd gyda chi ac wedi'u rhestru isod o ran adroddiad tryloywder blynyddol EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ar gyfer y flwyddyn i'r 31 Rhagfyr 2016. Ymgymerwyd â'n llythyr penodi yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Wasanaethau Cysylltiedig sy'n gymwys i Ymgymryd â gweithdrefnau. Perfformiwyd y gweithdrefnau at ddibenion eich bod yn cydymffurfio â Rheoliad 21 (2) (b) o Reoliadau Hawlfraint Rheoli Ar y Cyd (Cyfarwyddeb yr UE) 2016 yn unig ac fe'u crynhoir yn Atodiad C: Cytundeb ar Weithdrefnau ar gyfer archwilio Adroddiad Tryloywder Blynyddol.

Rydym yn adrodd ein canfyddiadau isod:

- O ran eitem 2, cadarnhawn fod y balans yn cytuno.

Gan nad yw'r gweithdrefnau uchod yn cynnwys ymrwymiadau a wneir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) na'r Safon Ryngwladol ar gyfer Ymgysylltiadau Adolygu (y DU ac Iwerddon), nid ydym yn mynegi unrhyw sicrwydd ar yr adroddiad tryloywder blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016.

Pe baem wedi perfformio gweithdrefnau ychwanegol neu gynnal ein gwaith yn unol ac ymrwymiadau Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) neu'r Safon Ryngwladol ar gyfer Ymgysylltiadau Adolygu (y DU ac Iwerddon), efallai y bydd materion eraill wedi dod i'n sylw a fyddai wedi cael eich hysbysu chi.

**Defnydd a phwrpas ein hadroddiad**

Paratowyd ein hadroddiad ar gyfer defnydd EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ac at ddibenion ei gydymffurfiad â Rheoliad 21 (2) (b) o Reoliadau Rheoli Ar y Cyd Hawlfraint (Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd) 2016 yn unig. Ni ddylai EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf ddibynnu ar ein hadroddiad at unrhyw ddiben arall o gwbl. Ni baratowyd ein Hadroddiad er budd unrhyw barti heblaw EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf. Nid yw WJ Matthews a'i fab yn dymuno nac yn derbyn unrhyw ddyletswydd i unrhyw barti arall (gan gynnwys unrhyw berchennog hawlfraint, etifeddion i berchnogion hawlfraint, asiantau neu drwyddedau) ac ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled, niwed na chostau o unrhyw natur o gwbl a achosir gan ddibyniaeth ar ein Hadroddiad.

David Chidley
Uwch Archwilydd Statudol

WJ Matthews a'i fab
Cyfrifwyr Siartredig
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

Dyddiad: 21/05/18